

MAREDUDD AP HUW YN TRAFOD UN ARALL O ARLOESWYR Y DIWYDIANT DIODYDD YSGAFN

Parhad o dudalen flaen

rieni yn Sir Benfro, oherwydd eu hamgylchiadau cyfyng yn y byd amaeth.

O Lyn Ebwy, symudodd Thomas Howell Williams i Llundain, ac ymuno â chwmmi mawr o fferyllwyr, lle y datblygodd yn ddadansoddwr medrus, mor fedrus yn wir nes iddo, yn y man, benderfynu ymsefydlu mewn busnes fferyllydd ar ei liwt ei hun. Llewyrchodd mewn busnes, nes sylweddoli un diwrnod bod dyfodol disglair yn aros unrhyw wr o'i brofiad a'i anian ef a fyddai'n barod i fentro i fusnes fel masnachwr diodydd ysgafn.

Yn wr ieuanc pur uchelgeisiol, ymwelodd â Ffrainc er mwyn gweld sut yr oedd y fasnach yn ffynnu yn y fan honno, ac yn Paris, meddai ef ei hun, fe sylwodd ar y defnydd o seiffon ar gyfer 'dyfroedd mwynol' na chlywsai erioed sôn amdani o'r blaen. Hynny, mewn gwirionedd, a'i symbylodd i sefydlu busnes newydd yn Llundain, gan ddefnyddio seiffonau tebyg. Penderfynodd gefnu ar fusnes fferyllydd gan ymroi'n gyfan gwbl i'r busnes newydd, nes iddo yn y man gael yr anrhydedd o fedru ymffrostio mai ef oedd un o'r rhai cyntaf yng Ngwledydd Prydain – onid y cyntaf un – i lwyddo i roi 'ffis' mewn poteli o ddiodydd ysgafn, a thrwy hynny lwyddo hefyd i chwyldroi y fasnach a oedd yn prysur ddatblygu'n un hynod o boblogaidd gyda'r cyhoedd.

Ei dasg gyntaf mewn busnes oedd meddwl am enw cwbl unigryw i'w gwmmi, enw a fyddai'n debygol o gydio o safbwynt masnachol, a'r un pryd yn enw a fyddai'n dal rhyw gysylltiad â'i gefndir ef ei hun. Tua 1874, penderfynodd fasnachu diodydd ysgafn dan yr enw 'IDRIS'. 'Roedd yr enw hwnnw, meddai ef ei hun ar y pryd, yn awgrymu cynnyrch o safon uchel, yn union fel yr oedd y cymeriad chwedlonol Idris Gawr yn eistedd ar binacl, felly hefyd y bwriadai i'r cwmmi yr oedd ef wedi ei sefydlu dan yr enw hwnnw gynhyrchu diodydd nad oedd rhagori arnynt. Yn wir, aeth gam ymhellach na hynny hefyd trwy, yn 1893, fabwysiadu trwy gyfraith y cyfenw 'Idris', ac o hynny hyd derfyn ei oes (bu farw ar Chwefror 10, 1925) fe'i hadwaenid gan bawb ym myd gwleidyddiaeth a masnach fel Thomas Howell Williams Idris.

Mae'n rhaid pwysleisio nad fel masnachwr llwyddiannus ac fel Aelod Seneddol yn unig y cysylltir enw'r gŵr hwn, gan iddo, ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, fod yn bur amlwg ym myd llywodraeth leol a meysydd eraill. Bu'n Uchel Siryf Sir Feirionnydd

(1912-18) ac yn Faer Bwrdeistref St. Pancras (1903-04). Cafodd hefyd ei anrhydeddu sawl tro gan Gymdeithas y Fferyllwyr a'r Gymdeithas Gemegol, ac i un o'i ddau gartref (un yn Highgate Road, Llundain, a'r llall yn Dôl-y-cae, Corris) fe ddeuai galwadau'n barhaus am ei wasanaeth fel ymgynghorwr, neu ynteu i weithredu ar ran y Gymdeithasau hynny.

Yn rhyfedd iawn cafodd Thomas Howell Williams Idris, ar y cyfan, fwy o sylw o lawer yn Lloegr, ei wlad fabwysiedig, nag a gafodd erioed yn ei wlad enedigol. Yn wir, ar un adeg o'i oes, fe'i hystyrir gan y Sais fel patrwm o wr, o gefndir eithaf dinod ac anffortunus, a lwyddodd trwy ddycenwch a dyfalbarhad personol i oresgyn pob anhawster, gan lwyddo i ddringo i reng flaenaf diwydianwyr Gwledydd Prydain.

Mewn cyfrol – y daeth copi ohoni i'm meddiant yn ddiweddar – yn dwyn y teitl *Success! chats about boys who have won it*, a'i chyhoeddi yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ar ddechrau'r ganrif ddilynol, a'i hanelu'n bennaf at blant a phobl ieuanc, pwysleisir fod y Cymro o Sir Benfro yn gymeriad y dylai hanes ei fywyd a'i yrfa ysbrydoli'r to ieuanc i'w efelychu, yn enwedig os oedd ganddynt awydd i ddilyn gyrfa ym myd masnach.

Yn y gyfrol honno, mewn dwy ar bymtheg o benodau, pob un ohonynt yn trafod campau gŵr a ystyriai'r awdur fel rhywun a fu'n wir lwyddiannus mewn bywyd (dynion bob un o'r ddau ar bymtheg gyda llaw, heb un ferch yn eu plith!) dau Gymro'n unig a gaiff sylw, sef John Gibson y cerflunydd, genedigol o Gonwy, a T.H.W. Idris, ac y mae'n eithaf siŵr fod y gŵr o Sir Benfro, a welodd gyhoeddi'r gyfrol, yn fwy na bodlon pan sylweddolodd fod Benjamin Franklin, Richard Cobden, James Watt, a G.F. Handel ymhlith enwogion eraill y gyfrol! Roedd hynny'n gryd deyrnged i Gymro a ddaeth gyntaf i amlygrwydd yn Lloegr fel un o arloeswyr y diwydiant 'pop', a hefyd yn gyfrwng i bwysleisio cenadwri fawr Oes Fictoria, sef 'nad di-fudd y aiwyd'.

Cofiwch am wefan *Y Casglwr* ar
www.geocities.com/casglwr

Os ydych am gyfrannu iddo, gyrrwch eich
pytiau at y golygydd drwy'r ebost
tanycastell@yahoo.com

FFAIR LYFRAU

Cynhelir Ffair Llyfrau, Printiadau a Hen Fapiau
yn Neuadd Bethseilun, Morfa Mawr, Aberystwyth
fore Sadwrn 7 Ebrill o 10 o'r gloch tan 4.

Bydd llyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru yno, ac os bydd
gennych ddiddordeb i werthu eich llyfrau, bydd pob croeso ichi
osod stondin yno. Codir £15 am bob stondin. Gadewch i'r
Ysgrifennydd wybod os oes diddordeb gennych.